# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 14 Chwefror 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 120(v5)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (i'w ateb gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant):**

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ynglŷn â gwasanaethau plant ym Mhowys yn sgil adroddiad gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru am farwolaeth plentyn o dan ofal y Cyngor Sir?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynigion i ethol Aelod i bwyllgorau (5 munud)

**NDM6659** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jack Sargeant (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn lle Dawn Bowden (Llafur).

**NDM6660** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jack Sargeant (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn lle Mick Antoniw (Llafur).

**NDM6661** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jack Sargeant (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn lle of Lee Waters (Llafur).

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu

(60 munud)

**NDM6635**

Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

David Melding (Canol De Cymru)

Nick Ramsay (Mynwy)

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

**Cefnogwyd gan**

**Vikki Howells (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi nifer y ffyrdd yng Nghymru sydd heb eu mabwysiadu, ac felly nad ydynt yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol perthnasol.

2. Yn nodi bod nifer o ddatblygwyr heb adeiladu ffyrdd ar ystadau newydd i safonau mabwysiadwy.

3. Yn cydnabod bod gwendidau yn y broses o brynu tai nad yw bob amser yn sicrhau bod gan brynwyr symiau dargadw ariannol digonol yn eu lle i ddod â'r ffyrdd hyn at safon mabwysiadwy'r awdurdod lleol.

4. Yn cydnabod bod y prynwyr tai hynny yn aml yn wynebu gorfod buddsoddi symiau sylweddol o arian er mwyn dod â ffyrdd at safon mabwysiadwy'r awdurdod lleol.

5. Yn nodi bod nifer o'r ffyrdd hyn yn parhau i fod heb eu mabwysiadu ac mewn cyflwr gwael, am nifer o flynyddoedd, weithiau yn fytholbarhaus.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu tasglu, i gynnwys awdurdodau lleol, y proffesiwn cyfreithiol, datblygwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill, gyda golwg ar ddatblygu gwelliannau i'r broses o brynu tai a mabwysiadu ffyrdd.

7. Yn ceisio datblygu rhaglen Cymru gyfan i sicrhau gostyngiad yn nifer y ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu yng Nghymru.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar unigrwydd ac unigedd

(60 munud)

**NDM6654 Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar unigrwydd ac unigedd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Rhagfyr 2017.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2018.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Iechyd Meddwl

(60 munud)

**NDM6658** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd iechyd meddwl da.

2. Yn gresynu bod rhai pobl â chyflyrau iechyd meddwl yn wynebu anghyfiawnder a heriau wrth ddefnyddio gwasanaethau.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod sectorau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru yn gallu darparu gwasanaethau iechyd meddwl effeithiol ac ataliol.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn sicrhau bod plant sydd angen triniaeth ar gyfer iechyd meddwl yn ei derbyn yn brydlon cyn i'w cyflwr waethygu a bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau ar berfformiad yn erbyn yr amcan hwn.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6650** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Bod yn ddoeth o ran tlodi tanwydd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 27 Chwefror 2018